



BBC Declaration of Personal Interests Policy

Note: the Welsh translation of this Policy can be found below.

This policy applies to all individuals engaged by BBC (Public Service and Studios & Post Production) including Senior Leaders, employees, freelancers and Agency temps in the UK and internationally (except where local labour law takes precedent).

This policy forms part of the contract of employment that applies to BBC employees in the UK on Bands A-Fp, and is an agreed statement between the BBC and recognised joint unions which may only be varied by joint negotiation at the National Joint Council.

Definition

High standards of objectivity, integrity, fairness and honesty must characterise the BBC's relationship with the outside world. This policy sets out the requirements you must observe which are designed to maintain the BBC's reputation for integrity and protect you from accusations of partiality in commercial and political matters.

The BBC is committed to protecting the privacy and security of your personal information.

Our [People Privacy Notice](#) describes how we collect and use personal information about you during and after your working relationship with us, in accordance with the General Data Protection Regulation 2016/679 (**GDPR**). If you require further details as to how your personal data is processed, we ask that you refer to this document, which is incorporated into this policy by reference.

Additional information about how we use your personal information and how long we keep it for can be found in [the Data Protection Handbook](#) and our [Corporate Retention Schedule](#).

It is your responsibility to familiarise yourself with the BBC's data processing policies and notices set out above. If you have any queries regarding the processing of data by the BBC, please contact your manager.

Contents

1. Declaration of Personal Interests
2. Consideration of Declared Personal Interests
3. Outside Activities
4. Purchasing and Commissioning
5. Involvement in Broadcasts by Competitors
6. Family or Close Personal Contacts
7. Political Involvement
8. Hospitality, Gifts, Services & Private Work
9. Use of Information & Resources
10. Confidentiality
11. Contact with the Press

Principles

- Individuals must not allow their outside activities to interfere with their BBC work or allow any conflict between their duties and their personal interests to affect their ability to carry out their role effectively.

- Individuals must declare any personal interests that are likely to result in a conflict between their duties and these interests or affect their ability to carry out their role effectively.
- All individuals must consider their personal interests upon joining; on an annual basis; when they change roles and at any other time should their business or personal circumstances change. If an individual has personal interests to declare they must complete a **Declaration of Personal Interests Form**.
- In many cases, the interests may not create a conflict or the fact that they are known will allow the individual's manager to ensure that the individual is not placed in a position where a conflict could arise. However if individuals are in any doubt as to whether an interest constitutes a conflict (this could be an actual or potential conflict, or something that could be perceived to be a conflict by a third party) then individuals should declare the interest on the form and their manager will determine what action is appropriate.
- Individuals have an ongoing responsibility whilst working for the BBC to remain vigilant for actual or potential conflicts arising from their personal interests. Individuals must declare any actual and potential conflicts at the point they arise.
- Individuals must not act in a manner likely to bring the BBC into disrepute or affect its reputation for impartiality.
- Disclosable personal interests may include those of family members and close personal contacts or involve relationships with other individuals engaged by the BBC (outlined in section 6 below). If an individual is in doubt about whether there could be an actual or perceived conflict of interest arising in these circumstances, individuals should declare the interest on the form and discuss matters with their manager
- HR will be available to provide advice and guidance to managers.
- If individuals are involved in making content for the BBC they must also refer to and abide by the **BBC Editorial Policy - Conflict of Interest Guidelines**.
- Any requests made under the Freedom of Information Act for disclosure of declarations made on the Declaration of Personal Interests Form will be considered in light of data protection requirements. It is anticipated that disclosure would normally only be required for information relating to employees in senior leader grades, not those in Bands A-Fp. Under normal circumstances, the personal data of family or close personal contacts of BBC employees below Executive Board level will not be disclosed under the Freedom of Information Act. If in specific circumstances these positions need to be reviewed, the BBC will inform the employee affected.
- If employees fail to follow the requirements of this policy and procedure as outlined in the principles and the sections that follow, the **BBC Disciplinary Policy** may be applied where non-compliance with the policy has, (including, but not exclusively), a tendency to conceal fraud.

1. Declaration of Personal Interests

All individuals, including Senior Leaders, must consider their personal interests upon joining; on an annual basis; when they change roles and at any other time should their business or personal circumstances change.

If an individual has personal interests to declare they must complete a Declaration of Personal Interests Form. Senior Leaders and the Executive Board are required to complete a Declaration of Personal Interests Form on an annual basis even where they have no personal interests to declare. Before completing the Declaration of Personal Interests Form individuals must have read and understood this policy.

Examples of where a personal interest may create a potential conflict of interest situation are detailed in each of the sections below. All individuals should ensure that they understand each of



the areas for declaration and declare any personal interests where a potential conflict could arise as appropriate.

If the individual has declared personal interests on the form the individual's manager will discuss any declarations made on the Declaration of Personal Interests Form with the individual and the outcome may be one of the following:

- The declared personal interests are acceptable within the individual's role and no further action is required; or
- The declared personal interests are not acceptable within the individual's role and that changes or actions are required, which have been agreed with the individual.
- Following discussions between the manager and individual, if no decision can be reached as to how the declared personal interest can be mitigated, it should be escalated within the Division, with the final point of referral usually being the Executive Board member. The outcome of this referral may be (but is not limited to) a recommendation that there be a change in job role or functions, or potentially dismissal if the unresolved conflict presents an ongoing risk to the BBC. In all cases there will be a further discussion with the individual before final action is taken.
- For Executive Board members who have declared a personal interest the final point of referral shall normally be the BBC's Director General and Group General Counsel.

The outcome of the discussions and any associated mitigating actions agreed will be recorded on the individual's Declaration of Personal Interests Form, which will be completed by the manager and retained on the individual's record. Where individuals are engaged by the BBC Trust, the manager will also advise the Director, BBC Trust that a personal interest has been declared.

Employees who consider they have been unfairly treated under the terms of this policy may raise a grievance under the **BBC Grievance Policy**. Freelancers, Contractors and Agency staff should raise any issues with their BBC contact.

2. Consideration of Declared Personal Interests

When reviewing any personal interests declared by an individual on their **Declaration of Personal Interests Form** the manager should consider the following before making a decision:

- What are the duties of the individual's role?
 - Does the individual have access to information which could influence commissioning, purchasing or contracting?
- How could their declared personal interests:
 - influence their role?
 - influence others in their role?
 - impact decision making by the individual or others (whether financial or editorial)?
 - allow family or friends to gain from the individual's connection to the BBC?
- How do you think the declared personal interest would be perceived externally? (e.g. statutory bodies, general public, other media organisations etc.)
- Could the declared personal interest damage or be perceived to damage the reputation, impartiality or integrity of the BBC?
- Could there be perceived preferential treatment?
- Can the risk of potential conflict of interest be mitigated sufficiently? If so, how?
- If the risk of a potential conflict of interest cannot be mitigated what changes or actions would the individual need to make?



- Do I need to inform anyone else about the individual's declared personal interests?
e.g. manager's manager, work colleagues or HR Business Partner

If an individual has any questions or concerns in relation to this Policy they should speak to their manager. Managers should seek advice or guidance from Manager Advice.

3. Outside Activities

Individuals must declare any outside work activities which are likely to conflict with their BBC duties, or could reasonably be regarded by others as constituting a conflict of interest. Examples of potential conflicts of interest are as follows:-

- Business interests that individuals, their family members or close personal contacts have with customers or suppliers e.g. involvement in, or with, any individual, company or business that supplies the BBC in any way e.g. outsourced functions;
- Family relationships or close personal contacts with customers, suppliers, independent production companies or advisors to the BBC;
- Outside work, private interests or activities which may interfere with your BBC work or give rise to a conflict of interest (actual or potential) e.g. speaking at events or writing for publications;
- Membership of voluntary organisations, statutory bodies etc. which give rise to a conflict of interest (actual or potential) e.g. a member of an organisation or body that is being covered by a programme that the individual is involved in, or through involvement in an organisation which could influence Government policies or industry standards;
- Any shareholding, securities or debentures in any organisation UK based or otherwise which competes with any member of the BBC Group (e.g., media, technology, communications companies, performing group organisations);
- Any shareholding, securities or debentures in any organisation which is a supplier of significant services to the BBC Group;
- Any shareholding, securities or debentures in any organisation which gives rise or may give rise to a conflict of interest for a period of time e.g. a negotiation with a new supplier in which the individual has an interest;
- Any interest in which individuals are directly or indirectly engaged, concerned or interested (financially or otherwise) in any other business or enterprise, or work for any other employer, which is wholly or partly in competition with any business carried out by the BBC itself or in partnership, common ownership or as a joint venture with any third party which is in competition with any business carried out by the BBC;
- Any executive or non-executive directorships held in any organisation;
- Outside or private interests or activities which could, or could appear, to place the BBC in a position whereby it is likely to be brought into disrepute or its reputation for impartiality is likely to be affected.
- In many cases, an individual's outside activities may not create a conflict of interest or the fact that their outside activities are known will allow the manager to ensure that the individual is not placed in a position where a conflict of interest could arise, and therefore they may be able to continue with the activity. If in doubt individuals should declare the interest or activity on the form and discuss matters with their manager.

4. Purchasing & Commissioning

Anyone involved in purchasing, tendering or commissioning must not have an undeclared association with any outside organisation involved in the process. Where an association does exist, individuals will not be permitted to become involved in the purchasing, tendering or commissioning process.



Unless specific permission has been given by their manager, individuals must not provide information or assistance to any organisation or individual tendering for work from the BBC.

5. Involvement in Broadcasts by Competitors

Individuals may be permitted to participate in activities for broadcasts by competitors, provided they abide by the **BBC Editorial Policy - Conflict of Interest Guidelines**, including gaining approval for participation where it is stated it is required, and observing the Principles section of this policy. These guidelines will apply even where individuals are not involved in making content for the BBC.

6. Family or Close Personal Contacts

The BBC recognises that staff who work together may hold or form personal friendships and, in some cases, close personal relationships. While it does not wish to unnecessarily interfere with these personal relationships, it is necessary for the BBC to ensure staff behave in an appropriate and professional manner in keeping with the BBC Code of Conduct do not abuse positions of power (consciously or subconsciously); and that personal relationships do not create perceived or actual conflicts of interest.

As outlined above staff must declare personal relationships that are likely to create an actual or perceived conflict of interests. Fuller details are available in the Managing Personal Relationships at Work Policy.

If individuals wish to be accompanied on a business trip (e.g. an occasion where you are representing the BBC), by a partner or other close personal contact individuals must have the authorisation of their manager and all the expenses for the companion, including travel and accommodation must not be paid for by the BBC.

7. Political Involvement

Active political involvement in a political party may present a conflict of interest. The extent of political involvement that is acceptable will be a matter of judgement dependant on the level of political involvement and the nature and level of the individual's role. Individuals may be asked for the name of the organisation to which the political involvement relates if it is relevant for considering the declaration.

When considering whether an actual or potential conflict may arise as a result of political involvement and therefore what is acceptable, the individual's manager, in consultation with the BBC's Chief Political Advisor will refer to and take into account the factors outlined in the **BBC Editorial Policy – Conflict of Interest Guidelines** (Political Activities) prior to advising the individual of a decision. These Political Activities Guidelines apply to political involvement interests even where individuals are not involved in making content for the BBC.

Political Activity

If individuals are involved in political activity they must not use the BBC or its name or make reference to their engagement with the BBC to further their political objectives, nor should individuals engage in any political activity during the course of their engagement with the BBC or on BBC premises.

Office holding in a political party and active political involvement of a significant and continuing nature may not be acceptable if individuals:-

- Are in the public eye; and/or



- Are in a management or editorial position in which they could influence policy, strategy or editorial decisions.

Individuals should also declare the political involvement of family members and close personal contacts.

Elections

If individuals wish to stand for nomination as a prospective candidate for:-

- The UK, European or Scottish Parliament
- Welsh Assembly
- Any Northern Ireland-wide politically elected body
- Local Government representation at any level
- Any overseas election

they may do so unless they are in a position whereby an actual or potential conflict of interest could arise or the BBC's impartiality could be undermined.

Individuals who currently hold an elected position in Local Government at any level must ensure that their manager is notified. The manager will then notify the BBC's Chief Political Advisor.

Please refer to the **BBC Editorial Policy – Conflict of Interest Guidelines** for further information.

Political activities as part of Trade Union Activities

Individuals are free to take part in activities organised and authorised by the Trade Unions.

When individuals are not taking part in Trade Union activities they will be required to observe the guidance outlined above.

If an individual is elected as an accredited trade union representative, they may, from time to time comment on political matters whilst representing the interests of their members. When expressing such views, individuals should make it clear that they are expressing their views as a trade union representative and they are not reflecting the views of the BBC.

8. Hospitality, Gifts, Services & Private Work

Whilst modest hospitality is an accepted courtesy of a business relationship, the recipient should not allow a position to be reached whereby its acceptance might be deemed by others to have influenced a decision or lead to potential allegations of a conflict of interest.

Invitations to modest corporate entertainment events may be accepted if there is clear benefit to the BBC e.g. to build supplier relationships or to network with other customers/contacts. Before any invitation is accepted approval must be sought in writing from the individual's manager.

Invitations should not be accepted if the event is overseas or includes an overnight stay.

Invitations which include partners may be accepted, with approval from the individual's manager, and provided they meet the above criteria, if there is no cost to the BBC.

Receiving gifts

Gifts (for individuals or their family) from organisations or individuals with whom an individual has, or might have, business dealings on behalf of the BBC should not be accepted. This can include goods and services in kind, at preferential rates or cash. Gifts should be returned to the sender or donated to charity. Very modest gifts e.g. diaries or a bottle of wine, of no more than £50 in value, may be occasionally accepted if authorised by the individual's manager.

Private Work

Individuals should not accept offers from BBC suppliers or potential suppliers to carry out private work on their behalf, unless it can be shown that the work will be done on terms that apply to the general public and that no conflict of interest will arise. For further information refer to the **BBC Expenses Policy**.

9. Use of Information & Resources

Individuals must not use BBC resources, including secretarial effort, to further their private interests or do any work for an outside organisation.

Individuals are required to seek the permission of their manager before using BBC information or content, or making reference to the BBC in any book, article, lecture or statement to the Press.

10. Confidentiality

The confidentiality of information, including personal data, received in the course of duty, must be respected and must only be disclosed for legitimate BBC purposes. It must never be disclosed for personal gain to a customer, competitor or any other media agency. If individuals have purchasing responsibilities they must not disclose contractual agreements and prices, rates or special arrangements with suppliers to non-BBC individuals or to BBC individuals who do not need to have access to such commercial information.

11. Contact with the Press

It is for Divisions to decide on the procedure to be adopted for contact with the Press should individuals have dealings on programmes or other matters of an official nature. Any direct approaches from the Press should be referred as appropriate within the Division, or to the BBC Press Office, before any information is divulged.

Anyone known to have leaked information deliberately to the Press, a competitor or another supplier will be subject to disciplinary action, and such action may result in dismissal, or no longer being offered work by the BBC.

Polisi'r BBC ar Ddatgan Buddiannau Personol

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob unigolyn sy'n cael ei ddefnyddio gan y BBC (y Gwasanaeth Cyhoeddus a'r isadran Studios & Post Production), gan gynnwys uwch reolwyr, cyflogeion, gweithwyr llawrydd a gweithwyr dros dro drwy Asiantaeth yn y DU ac yn rhyngwladol (ac eithrio pan fo cyfraith llafur leol yn cael blaenoriaeth).

Mae'r polisi hwn yn rhan o'r contract cyflogaeth sy'n berthnasol i weithwyr y BBC yn y DU ar Raddfeydd 2-11. Datganiad y cytunwyd arno rhwng y BBC ac undebau ar y cyd cydnabyddedig yw hwn ac ni ellir ond ei amrywio drwy drafodaethau ar y cyd yn y Cydgyngor Cenedlaethol.

Diffiniad

Mae'n rhaid i safon uchel o wrthrychedd, didwylledd, tegwch a gonestrwydd nodweddu perthynas y BBC â'r byd y tu allan. Mae'r polisi hwn yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i chi lynu wrthynt sydd wedi'u llunio i gynnal enw da'r BBC am uniondeb ac i'ch amddiffyn chi rhag cael eich cyhuddo o ffafriaeth mewn materion gwleidyddol a masnachol.

Mae'r BBC yn ymrwymedig i amddiffyn preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol chi.

Mae ein [Hysbysiad Preifatrwydd Pobl](#) yn disgrifio sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi yn ystod eich perthynas weithio â ni, ac wedi hynny, yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016/679 (**GDPR**). Os byddwch angen rhagor o fanylion am y ffordd mae'ch data personol yn cael ei brosesu, gofynnwn i chi gyfeirio at y ddogfen hon, sydd wedi'i chynnwys yn y polisi hwn drwy gyfeiriad.

Mae gwybodaeth ychwanegol am y modd yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol a pha mor hir y byddwn yn ei chadw ar gael yn [y Llawlyfr Diogelu Data](#) a'n [Atodlen Cadwraeth Gorfforaethol](#).

Eich cyfrifoldeb chi yw ymglyfarwyddo â hysbysiadau a pholisïau prosesu data'r BBC a nodir uchod. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â gwaith y BBC yn prosesu data, cysylltwch â'ch rheolwr.

Cynnwys

12. Datgan Buddiannau Personol
13. Ystyried Buddiannau Personol a Ddatganwyd
14. Gweithgareddau allanol
15. Prynu a Chomisiynu
16. Cymryd rhan mewn Darllediadau gan Gystadleuwyr
17. Cysylltiadau Teuluol neu Gysylltiadau Personol Agos
18. Ymwneud Gwleidyddol
19. Lletygarwch, Rhoddion, Gwasanaethau a Gwaith Preifat
20. Defnyddio Gwybodaeth ac Adnoddau
21. Cyfrinachedd
22. Cyswllt â'r Wasg

Egwyddorion

- Rhaid i unigolion sicrhau nad yw eu gweithgareddau allanol yn amharu ar eu gwaith i'r BBC na chaniatáu unrhyw wrthdaro rhwng eu dyletswyddau a'u buddiannau personol i effeithio ar eu gallu i gyflawni eu rôl yn effeithiol.
- Rhaid i unigolion ddatgan unrhyw fuddiannau personol sy'n debygol o arwain at wrthdaro rhwng eu dyletswyddau a'r buddiannau hyn neu o effeithio ar eu gallu i gyflawni eu rôl yn effeithiol.
- Rhaid i bob unigolyn ystyried ei fuddiannau personol wrth ymuno; bob blwyddyn; pan mae'n newid rôl ac ar unrhyw adeg arall os digwydd i'w fusnes neu ei amgylchiadau personol newid. Os oes gan unigolyn fuddiannau personol i'w datgan, rhaid iddo lenwi [Ffurflen Datgan Buddiannau Personol](#).
- Mewn llawer achos, efallai na fydd y buddiannau yn achosi gwrthdaro neu y bydd y ffaith eu bod yn hysbys yn galluogi rheolwr yr unigolyn i sicrhau nad yw'r unigolyn yn cael ei roi mewn sefyllfa lle gallai gwrthdaro godi. Ond, os oes gan unigolyn unrhyw amheuaeth a yw budd personol yn golygu gwrthdaro (gallai hyn fod yn wrthdaro gwirioneddol neu'n wrthdaro posibl, neu'n rhywbeth y gallai trydydd parti ei ystyried yn wrthdaro), yna dylai'r unigolyn hwnnw ddatgan y budd ar y ffurflen hon a bydd ei reolwr yn penderfynu pa gamau fydd yn briodol i'w cymryd. Mae gan unigolion gyfrifoldeb parhaus i fod yn wylidwrus gydol yr amser y byddant yn gweithio i'r BBC rhag ofn i unrhyw wrthdaro gwirioneddol neu bosibl ddeillio o'u buddiannau personol. Rhaid i unigolion ddatgan unrhyw wrthdaro gwirioneddol neu bosibl fel maent yn codi.
- Ni ddylai unigolion ymddwyn mewn ffordd sy'n debygol o ddwyn anfri ar y BBC neu effeithio ar ei enw da am fod yn ddiuedd.
- Mae buddiannau personol y dylid eu datgelu yn gallu cynnwys buddiannau personol aelodau o'r teulu a phobl y mae gennych gyswllt agos â nhw. Maent hefyd yn gallu bod yn gysylltiedig â pherthynas sydd gennych ag unigolion eraill a gyflogir gan y BBC (gweler amlinelliad o hyn yn adran 6 isod). Os oes gan unigolyn amheuaeth ynghylch a allai unrhyw wrthdaro gwirioneddol neu bosibl rhwng buddiannau godi o'r amgylchiadau hyn, dylai ddatgan y budd ar y ffurflen a thrafod y mater gyda'i reolwr.
- Bydd staff AD ar gael i roi cyngor ac arweiniad i reolwyr.
- Os yw unigolyn yn ymwneud â chreu cynnwys ar gyfer y BBC mae'n rhaid iddo hefyd gyfeirio at a glynu wrth [Bolisi Golygyddol y BBC - Canllawiau Gwrthdaro rhwng Buddiannau](#).
- Bydd unrhyw geisiadau a wneir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth am ddatgelu datganiadau a wnaed ar y Ffurflen Datgan Buddiannau Personol yn cael eu hystyried yng ngoleuni unrhyw ofynion diogelu data. Rhagwelir mai dim ond ar gyfer gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithwyr ar raddfeydd uwch reolwyr y byddai angen datgeliad fel arfer, ac nid ar gyfer y rheiny ar raddfeydd 2-11. Mewn amgylchiadau arferol, ni fydd data personol am deulu cyflogeion y BBC neu am bobl y mae gan gyflogeion y BBC gysylltiad agos â nhw yn cael ei ddatgelu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yng nghyswllt cyflogeion ar lefel is na'r Bwrdd Gweithredol. Os bydd amgylchiadau penodol yn golygu bod angen adolygu'r sefyllfa, bydd y BBC yn rhoi gwybod i'r cyflogai yr effeithir arno.
- Os na fydd cyflogeion yn cydymffurfio â gofynion y polisi hwn a'r weithdrefn sydd wedi'i nodi yn yr egwyddorion a'r adrannau sy'n dilyn, gellir rhoi [Polisi Disgyblu'r BBC](#) ar waith lle mae peidio â chydymffurfio â'r polisi (gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i hyn) yn tueddu i gelu twyll.

1. Datgan Buddiannau Personol

Rhaid i bob unigolyn ystyried ei fuddiannau personol wrth ymuno; bob blwyddyn; pan mae'n newid rôl ac ar unrhyw adeg arall os digwydd i'w fusnes neu ei amgylchiadau personol newid.

Os oes gan unigolyn fuddiannau personol i'w datgan, rhaid iddo lenwi Ffurflen Datgan Buddiannau Personol. Mae'n rhaid i unigolion fod wedi darllen a deall y polisi hwn cyn llenwi'r Ffurflen Datgan Buddiannau Personol.

Ym mhob un o'r adrannau isod, nodir enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gallai budd personol greu gwrthdaro posibl rhwng buddiannau. Dylai pob unigolyn sicrhau ei fod yn deall pob maes sy'n galw am ddatganiad a datgan unrhyw fuddiannau personol a allai greu gwrthdaro posibl fel sy'n briodol.

Os yw'r unigolyn wedi datgan buddiannau personol ar y ffurflen bydd rheolwr yr unigolyn dan sylw yn trafod unrhyw ddatganiadau a wnaed ar y Ffurflen Datgan Buddiannau Personol gyda'r unigolyn. Gallai un o'r ddau ganlyniad isod ddeillio o hynny:

- Mae'r buddiannau personol sydd wedi cael eu datgan yn dderbyniol yng nghyswllt rôl yr unigolyn ac nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach; neu
- Nid yw'r buddiannau personol sydd wedi cael eu datgan yn dderbyniol yng nghyswllt rôl yr unigolyn ac mae angen newid neu gymryd camau pellach, a chytunwyd ar y rhain gyda'r unigolyn.
- Wedi i'r rheolwr a'r unigolyn drafod y mater, os nad oes modd dod i unrhyw benderfyniad ynghylch sut gellir lliniaru ar y budd personol a ddatganwyd, dylid cyfeirio'r mater at sylw swyddogion ar lefel uwch yn yr Isadrn. Fel arfer, yr aelod o'r Bwrdd Gweithredol yw'r pwynt cyfeirio terfynol. Mae'n bosibl mai canlyniad yr atgyfeiriad hwn fydd argymhell newid y rôl neu swyddogaethau'r rôl honno, neu, o bosibl, diswyddo os yw'r gwrthdaro yn cynrychioli risg barhaus i'r BBC (ond nid yw'r canlyniadau posibl yn gyfyngedig i hyn). Ym mhob achos, cynhelir trafodaeth bellach gyda'r unigolyn cyn cymryd camau terfynol.
- Yng nghyswllt unigolion a gyflogir gan Ymddiriedolaeth y BBC, Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth y BBC fydd y pwynt cyfeirio terfynol.
- Yng nghyswllt aelodau o'r Bwrdd Gweithredol sydd wedi datgan budd personol, fel arfer y pwynt cyfeirio terfynol fydd Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC a Chwmsler Cyffredinol y Grŵp.

Bydd canlyniad y trafodaethau ac unrhyw gamau lliniaru cysylltiedig y cytunir arnynt yn cael eu cofnodi ar Ffurflen Datgan Buddiannau Personol yr unigolyn. Caiff hon ei chwblhau gan y rheolwr a'i chadw ar gofnod yr unigolyn. Pan fydd unigolion yn cael eu cyflogi gan Ymddiriedolaeth y BBC, bydd y rheolwr hefyd yn rhoi gwybod i Gyfarwyddwr Ymddiriedolaeth y BBC bod budd personol wedi cael ei ddatgan.

Os bydd cyflogai yn credu ei fod wedi cael ei drin yn annheg o dan y telerau sydd yn y polisi hwn, gall gyflwyno cwyn o dan [Bolisi Cwynion y BBC](#). Dylai gweithwyr llawrydd, Contractwyr a staff Asiantaeth godi unrhyw faterion â'u cyswllt yn y BBC.

2. Ystyried Buddiannau Personol a Ddatganwyd

Wrth adolygu unrhyw fuddiannau personol sydd wedi cael eu datgan gan unigolyn ar ei [Ffurflen Datgan Buddiannau Personol](#) dylai'r rheolwr ystyried y canlynol cyn gwneud ei benderfyniad:

- Beth yw dyletswyddau rôl yr unigolyn?

- A ydy'r unigolyn yn gallu cael gafael ar wybodaeth a allai ddylanwadu ar gomisiynu, prynu neu contractio?
- Sut gallai'r buddiannau personol a ddatganwyd ganddynt:
 - ddylanwadu ar eu rôl?
 - dylanwadu ar eraill yn eu rôl?
 - effeithio ar benderfyniadau'r unigolyn neu eraill (yn ariannol neu'n olygyddol)?
 - caniatáu i deulu neu ffrindiau elwa o gysylltiad yr unigolyn â'r BBC?
- Sut ydych chi'n meddwl y byddai'r budd personol a ddatganwyd yn cael ei weld yn allanol? (e.e. cyrff statudol, y cyhoedd, sefydliadau cyfryngau eraill, ac ati)
- A allai'r budd personol a ddatganwyd niweidio neu roi'r argraff o niweidio enw da, didueddrwydd neu ddidwylledd y BBC?
- A fyddai'n cael ei weld fel triniaeth ffafriol?
- A ellir lliniaru ar y risg o wrthdaro posibl rhwng buddiannau yn ddigonol? Os gallent, sut?
- Os na ellir lliniaru ar y risg o wrthdaro posibl rhwng buddiannau, pa newidiadau neu gamau fyddai angen i'r unigolyn eu rhoi ar waith?
- A oes angen i mi roi gwybod i unrhyw un arall am y buddiannau personol a ddatganwyd gan yr unigolyn? e.e. rheolwr y rheolwr, cydweithwyr neu'r Partner Busnes AD
-

Os oes gan unigolyn unrhyw gwestiynau neu bryderon am y Polisi hwn, dylai drafod y peth gyda'i Reolwr. Dylai Rheolwyr ofyn am gyngor neu arweiniad gan y tîm Cyngor i Reolwyr.

3. Gweithgareddau allanol

Rhaid i unigolion ddatgan unrhyw weithgareddau y tu allan i'r gwaith sy'n debygol o wrthdaro â'u dyletswyddau yn y BBC, neu a fyddai'n rhesymol i bobl eraill eu hystyried yn wrthdaro rhwng buddiannau. Dyma enghreifftiau o wrthdaro posibl rhwng buddiannau:-

- Buddiannau busnes sydd gan unigolyn, aelodau o'i deulu neu gwsmeriaid neu gyflenwyr y mae gan unigolyn gysylltiad personol agos â nhw e.e. cysylltiad ag unigolyn, cwmni neu fusnes sy'n cyflenwi'r BBC mewn rhyw ffordd e.e. swyddogaethau a gaiff eu cyflawni'n allanol;
- Perthynas deuluol neu gysylltiad personol agos â chwsmeriaid, cyflenwyr, cwmnïau cynhyrchu annibynnol neu gynghorwyr i'r BBC;
- Gwaith rydych yn ei wneud y tu allan i'r gwaith, diddordebau neu weithgareddau preifat a allai amharu ar eich gwaith gyda'r BBC neu a allai arwain at wrthdaro rhwng buddiannau (gwirioneddol neu bosibl) e.e. siarad mewn digwyddiadau neu ysgrifennu ar gyfer cyhoeddiadau;
- Aelodaeth o fudiadau gwirfoddol, cyrff statudol ayyb sy'n creu gwrthdaro rhwng buddiannau (gwirioneddol neu bosibl) e.e. eich bod yn aelod o sefydliad neu gorff sy'n cael ei gynnwys mewn rhaglen yr ydych chi ynghlwm â hi, neu drwy ymwneud â sefydliad a allai ddylanwadu ar bolisiâu'r Llywodraeth neu safonau'r diwydiant;
- Unrhyw gyfranddaliadau, gwarannau neu ddyledebion sydd gennych mewn unrhyw sefydliad yn y DU neu fel arall sy'n cystadlu ag unrhyw aelod o grŵp y BBC (er enghraifft, cwmnïau cyfathrebu, technoleg, y cyfryngau, sefydliadau grwpiau perfformio);
- Unrhyw gyfranddaliadau, gwarannau neu ddyledebion sydd gennych mewn unrhyw sefydliad sy'n cyflenwi gwasanaethau o bwys i Grŵp y BBC;
- Unrhyw gyfranddaliadau, gwarannau neu ddyledebion sydd gennych mewn unrhyw sefydliad sy'n creu neu a allai greu gwrthdaro rhwng buddiannau dros gyfnod o amser e.e. trafodaethau â chyflenwr newydd y mae gan yr unigolyn fudd ynddo;

- Unrhyw weithgarwch y mae unigolyn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ynghlwm ag ef, y mae unigolyn yn cymryd rhan ynddo neu y mae gan unigolyn fudd ynddo (ariannol neu fel arall) yn unrhyw fusnes neu fenter arall, neu waith i gyflogwr arall, sy'n cystadlu'n rhannol neu'n gyfan gwbl ag unrhyw fusnes y mae'r BBC yn ei wneud, ar ei ben ei hun neu mewn partneriaeth, ar sail cydberchnogaeth neu fenter ar y cyd, ag unrhyw drydydd parti sy'n cystadlu ag unrhyw fusnes y mae'r BBC yn ei gyflawni;
- Unrhyw swydd cyfarwyddwr gweithredol neu anweithredol a ddelir mewn unrhyw sefydliad;
- Gweithgareddau neu ddiddordebau allanol neu breifat a allai, neu a allai ymddangos fel pe gallent, roi'r BBC mewn sefyllfa sy'n debygol o ddwyn anfri ar y cwmni neu sy'n debygol o effeithio ar yr enw da sydd gan y cwmni am fod yn ddiduedd.
- Mewn llawer achos, efallai na fydd gweithgareddau allanol unigolyn yn creu gwrthdaro rhwng buddiannau neu mae'n bosibl y bydd y ffaith bod ei weithgareddau allanol yn hysbys yn galluogi'r rheolwr i sicrhau nad yw'r unigolyn yn cael ei roi mewn sefyllfa lle gallai gwrthdaro rhwng buddiannau godi, ac felly efallai y bydd yn gallu parhau i wneud y gweithgaredd. Os nad yw unigolyn yn siŵr, dylai ddatgan y budd neu'r diddordeb ar y ffurflen a thrafod y mater gyda'i reolwr.

4. Prynu a Chomisiynu

Ni ddylai unrhyw un sy'n ymwneud â phrynu, tendro neu gomisiynu gael unrhyw gysylltiad sydd heb ei ddatgan ag unrhyw sefydliad allanol sy'n rhan o'r broses. Lle bo cysylltiad yn bodoli, ni chaniateir i'r unigolyn gymryd rhan yn y broses brynu, tendro na chomisiynu.

Oni bai ei fod wedi cael caniatâd penodol ei reolwr, ni ddylai unigolyn roi gwybodaeth na chymorth i unrhyw sefydliad neu unigolyn sy'n tendro am waith gyda'r BBC.

5. Cymryd rhan mewn Darllediadau gan Gystadleuwyr

Efallai y caniateir i unigolion gymryd rhan mewn gweithgareddau ar gyfer darllediadau gan gystadleuwyr, ar yr amod eu bod yn glynu wrth [Bolisí Golygyddol y BBC - Gwrthdaro rhwng Buddiannau](#), sy'n cynnwys cael sêl bendith i gymryd rhan lle nodir bod angen hynny, a glynu wrth adran Egwyddorion y polisi hwn. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol hyd yn oed pan nad yw unigolion yn gysylltiedig â gwneud cynnwys ar gyfer y BBC.

6. Cysylltiadau Teuluol neu Gysylltiadau Personol Agos

Mae'r BBC yn cydnabod y gall staff sy'n gweithio gyda'i gilydd gynnal neu ffurfio cyfeillgarwch personol ac mewn rhai achosion, cydberthnasau personol agos. Er nad yw'n dymuno ymyrryd yn ddi-angen â'r cydberthnasau personol yma, mae'n angenrheidiol i'r BBC sicrhau fod staff yn ymddwyn mewn modd priodol a phroffesiynol i gyd-fynd â Chôd Ymddygiad y BBC ac nid yn camddefnyddio safleoedd o bŵer (yn ymwybodol neu'n isymwybodol); ac nad yw cydberthnasau personol yn creu gwrthdaro buddiannau tybiedig neu wirioneddol.

Fel yr amlinellir uchod, mae'n rhaid i staff ddatgan cydberthnasau personol sy'n debygol o greu gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu dybiaethol. Ceir manylion pellach drwy'r Polisi Rheoli Cydberthnasau Personol yn y Gwaith.

Os bydd unigolyn yn dymuno cael cwmni partner neu unigolyn arall y mae ganddo gysylltiad personol agos ag ef ar ymweliad busnes (e.e. achlysur lle mae'r unigolyn yn cynrychioli'r BBC), rhaid i reolwr yr unigolyn awdurdodi hynny ac ni ddylai'r BBC dalu treuliau'r cymar, gan gynnwys ei gostau teithio a llety.

7. Ymwneud Gwleidyddol

Gall ymwneud gwleidyddol brwd â phlaidd wleidyddol greu gwrthdaro rhwng buddiannau. Bydd faint o ymwneud gwleidyddol sy'n dderbyniol yn dibynnu ar lefel yr ymwneud gwleidyddol ac ar natur a lefel rôl yr unigolyn. Efallai y gofynnir i'r unigolyn beth yw enw'r sefydliad y mae ei ymwneud gwleidyddol yn gysylltiedig ag ef os yw hyn yn berthnasol wrth ystyried y datganiad.

Wrth ystyried a allai gwrthdaro gwirioneddol neu bosibl godi yn sgil ymwneud gwleidyddol ac felly beth sy'n dderbyniol, bydd rheolwr yr unigolyn dan sylw, mewn ymgynghoriad â Phrif Gynghorydd Gwleidyddol y BBC, yn ystyried ac yn cyfeirio at y ffactorau sydd wedi'u nodi ym [Mholisi Golygyddol y BBC - Canllawiau Gwrthdaro rhwng Buddiannau](#) (Gweithgareddau Gwleidyddol) cyn hysbysu'r unigolyn am y penderfyniad. Mae'r canllawiau hyn ar Weithgareddau Gwleidyddol yn berthnasol i ymwneud gwleidyddol hyd yn oed pan nad yw unigolion yn gysylltiedig â gwneud cynnwys ar gyfer y BBC.

Gweithgarwch Gwleidyddol

Os yw unigolion yn ymwneud â gweithgarwch gwleidyddol, ni ddylent ddefnyddio'r BBC na'i enw na chyfeirio at eu cyflogaeth gyda'r BBC i hyrwyddo eu hamcanion gwleidyddol, ac ni ddylai unigolion ymgymryd ag unrhyw weithgarwch gwleidyddol yn ystod eu cyflogaeth gyda'r BBC nac ar eiddo'r BBC.

Efallai na fydd dal swydd mewn plaidd wleidyddol a chyfranogiad gwleidyddol sylweddol a pharhaus yn dderbyniol os yw'r unigolyn dan sylw:-

- Yn llygad y cyhoedd; a/neu
- Mewn swydd olygyddol neu reoli lle y gallai ddylanwadu ar benderfyniadau polisi, golygyddol neu strategol.

Dylai unigolion hefyd ddatgan cyfranogiad gwleidyddol aelodau o'i deulu a chyfranogiad pobl y mae ganddynt gysylltiad personol agos â nhw.

Etholiadau

Os yw unigolyn yn dymuno cynnig ei hun fel darpar ymgeisydd ar gyfer un o'r canlynol:

- Senedd y DU, Senedd Ewrop neu Senedd yr Alban
- Cynulliad Cymru
- Unrhyw gorff sy'n weithredol ledled Gogledd Iwerddon a etholir drwy broses wleidyddol
- Cynrychiolaeth Llywodraeth Leol ar unrhyw lefel
- Unrhyw etholiad tramor

gall wneud hynny, oni bai ei fod mewn sefyllfa lle gallai gwrthdaro gwirioneddol neu bosibl rhwng buddiannau godi neu lle byddai didueddrwydd y BBC yn cael ei danseilio.

Rhaid i unigolion sydd eisoes yn dal swydd etholedig ar unrhyw lefel mewn Llywodraeth Leol sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'w rheolwr. Yna bydd y rheolwr yn hysbysu Prif Gynghorydd Gwleidyddol y BBC.

Cyfeiriwch at [Bolisi Golygyddol y BBC – Canllawiau Gwrthdaro rhwng Buddiannau](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gweithgareddau gwleidyddol fel rhan o Weithgareddau Undebau Llafur

Mae rhwydd hynt i unigolion gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi'u trefnu a'u hawdurdodi gan yr Undebau Llafur.

Pan nad yw unigolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Undeb Llafur, rhaid iddynt ddilyn y canllawiau a nodwyd yn adran 6 uchod.

Os caiff unigolyn ei ethol yn gynrychiolydd undeb llafur achrededig, gall, o bryd i'w gilydd, roi sylwadau ar faterion gwleidyddol wrth gynrychioli buddiannau ei aelodau. Pan mae'n mynegi barn o'r fath, dylai'r unigolyn ei gwneud yn glir ei fod yn datgan barn fel cynrychiolydd undeb llafur ac nad yw'n adlewyrchu barn y BBC.

8. Lletygarwch, Rhoddion, Gwasanaethau a Gwaith Preifat

Er bod rhywfaint o letygarwch yn gwrteisi sy'n cael ei dderbyn fel rhan o berthynas fusnes, ni ddylai'r sawl sy'n derbyn y lletygarwch ganiatáu i'r sefyllfa gyrraedd pwynt a allai wneud i bobl eraill feddwl bod hynny wedi dylanwadu ar benderfyniad neu arwain at honiadau posibl o wrthdaro rhwng buddiannau.

Ceir derbyn gwahoddiadau cyffredin i ddigwyddiadau adloniant corfforaethol os oes budd amlwg i'r BBC e.e. i feithrin cysylltiadau â chyflenwyr neu i rwydweithio â chwsmeriaid/cysylltiadau eraill. Cyn derbyn unrhyw wahoddiad rhaid cael sêl bendith ysgrifenedig rheolwr yr unigolyn.

Ni ddylid derbyn gwahoddiadau os yw'r digwyddiad yn cael ei gynnal dramor neu os yw'n golygu aros dros nos.

Ceir derbyn gwahoddiadau sy'n cynnwys partneriaid, gyda chaniatâd rheolwr llinell yr unigolyn dan sylw, ac ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf uchod, os nad oes unrhyw gost i'r BBC.

Derbyn rhoddion

Ni ddylid derbyn rhoddion (i unigolyn na'i deulu) gan sefydliadau nac unigolion y mae unigolyn yn gwneud busnes â hwy, neu y gallai fod yn gwneud busnes â hwy, ar ran y BBC. Gall hyn gynnwys nwyddau a gwasanaethau ymarferol ar delerau ffafriol neu arian parod. Dylid dychwelyd y rhoddion i'r sawl a'u hanfonodd neu eu rhoi i elusen. Yn achlysurol, ceir derbyn rhoddion rhesymol iawn e.e. dyddiaduron neu botel o win, sy'n werth hyd at £50, os yw rheolwr yr unigolyn yn awdurdodi hynny.

Gwaith Preifat

Ni ddylai unigolion dderbyn cynigion gan gyflenwyr neu ddarpar gyflenwyr y BBC i wneud gwaith preifat ar eu rhan, oni bai bod modd dangos y bydd y gwaith yn cael ei wneud ar sail telerau sy'n berthnasol i'r cyhoedd yn gyffredinol ac na fydd hyn yn creu unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau. Am fanylion pellach, edrychwch ar [Bolisi Treuliau'r BBC](#).

9. Defnyddio Gwybodaeth ac Adnoddau

Ni ddylai unigolion ddefnyddio adnoddau'r BBC, gan gynnwys gwasanaeth ysgrifenyddol, i hyrwyddo eu buddiannau preifat nac i wneud unrhyw waith i sefydliad allanol.

Disgwylir i unigolion ofyn am ganiatâd eu rheolwr cyn defnyddio gwybodaeth neu gynnwys y BBC, neu cyn cyfeirio at y BBC mewn unrhyw lyfr, erthygl, darlith neu ddatganiad i'r Wasg.

10. Cyfrinachedd

Rhaid parchu cyfrinachedd gwybodaeth, gan gynnwys data personol, a geir wrth gyflawni dyletswyddau ac ni ddylid ond ei datgelu at ddibenion cyfreithlon y BBC. Ni ddylid byth ddatgelu gwybodaeth er budd personol i gwsmer, cystadleuydd nac unrhyw asiantaeth gyfryngol arall. Os oes gan unigolion gyfrifoldebau prynu, ni ddylent ddatgelu cytundebau a phrisiau contractau, cyfraddau na threfniadau arbennig gyda chyflenwyr i unigolion nad ydynt yn gweithio i'r BBC nac i unigolion yn y BBC sydd ddim yn gallu cael mynediad i wybodaeth fasnachol o'r fath.

11. Cyswllt â'r Wasg

Isadrannau sydd i benderfynu ar y weithdrefn y dylid ei mabwysiadu ar gyfer cyswllt gyda'r Wasg os bydd unigolion yn delio â rhaglenni neu faterion swyddogol eraill. Dylid cyfeirio unrhyw gyswllt uniongyrchol gan y Wasg i'r man priodol yn yr Isadran, neu i Swyddfa'r Wasg, cyn dadlennu unrhyw wybodaeth.

Bydd unrhyw un sy'n rhyddhau gwybodaeth yn fwriadol yn answyddogol i'r Wasg, i gystadleuydd neu i gyflenwr yn cael ei ddisgyblu, a gall gweithred o'r fath arwain at ddiswyddo, neu at beidio â chael cynnig gwaith gan y BBC eto.